



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Gofal Cymdeithasol Cymru

Canllawiau brand



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cynnwys

Y brand.....3

Y logo.....5

Lliw.....13

Ffurfddeip.....17

Delweddau.....20

Llunwedd.....23

Ein brand

Pwy ydyn ni

Ein brand

Rheoleiddio a gwella gofal yng Nghymru

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithio gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth, ac ystod eang o sefydliadau, i arwain gwelliant mewn gofal cymdeithasol.

Ein nod yw sicrhau y gall pobl Cymru alw ar weithlu gofal cymdeithasol o ansawdd uchel sy'n darparu gwasanaethau i gwrdd a'u hanghenion yn llawn.

Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a sefydliadau eraill mewn ffordd sy'n gydweithredol ac yn gynhwysol.

Ein pedwar maes gwaith allweddol yw:

- Rheoleiddio'r gweithlu
- Dysgu a datblygu'r gweithlu
- Gwella gwasanaeth
- Ymchwil.

Ein gwerthoedd

- Parchu bawb
- Cymryd agwedd broffesiynol
- Dysgu bob amser
- Cynnwys pobl.

Ein logo

Sut rydyn ni'n edrych

Y tic

Cynrychioli pobl a gefnogir gan reoleiddio a gofal. Mae'r marc hwn yn dwyn ynghyd ddau brif bwrpas Gofal Cymdeithasol Cymru i greu un achos. Mae'r symbol yn portreadu ochr agored, ofalgar a dynol i'r brand; mae hefyd yn dangos yr ansawdd a'r sicrwydd y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei olygu.



Pobl
Gofal
Partneriaethau
Bod yn Agored
Parch
Cydraddoldeb



Rheoleiddio
Ansawdd
Credadwy
Ymddiried
Rhagoriaeth
Sicrwydd
Safonau




Defnyddio'r tic

Er ei bod yn bwysig defnyddio'r marc brand yn ei gyfanrwydd bob amser - gellir defnyddio'r tic, ar adegau lle bo hynny'n briodol, fel ased ategol.

Gellir ei docio hefyd a'i ddefnyddio fel elfen graffig ar wahân, fel y dangosir isod.

Maint lleiaf

Pan yn ddefnyddio'r tic ar ddeunyddiau argraffu, maint lleiaf y dylai'r marc fod yw 10 mm.



Logo llawn

Mae'r marc brand yn cynnwys y tic a marc geiriau, wedi'i leoli gyda'i gilydd.

Lle bynnag y bo modd, dylid gosod y marc brand ar y chwith. Mae'r berthynas rhwng y tic a'r marc geiriau yn sefydlog.



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Gwneud a phaidio â gwneud

Mae camddefnyddio'r marc brand yn gwanhau ei effaith.

Ni ddylech newid y marc brand mewn unrhyw ffordd. Rhaid atgynhyrchu'r marc brand bob amser o'r gwaith celf a ddarperir. Rhaid peidio gwahanu'r tic a'r marc geiriau. Dangosir yma rai enghreifftiau o sut i beidio â newid y marc brand.



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

X Peidiwch ag ystumio'r marc brand



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

X Peidiwch â chylchdroi'r marc brand

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales



X Peidiwch ag ail-leoli'r elfennau



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

X Peidiwch â fflipio'r tic



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

X Peidiwch â newid y ffurfdeip



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

X Peidiwch â newid y lliw

Logo a lliw

Lliwiau diofyn y marc brand yw mint (marc tic) a llechen (marc geiriau).

Yn dibynnu ar y lliw neu'r math o gefndir y rhoddir y marc brand arno, gellir ei newid i un o'r opsiynau lliw amgen hyn:

- llechen yn gyfan gwbl
- hollol wyn.

Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos y cyfuniadau lliw priodol i sicrhau bod y marc brand bob amser yn glir ac yn hawdd ei ddarllen.

Logo ar wyn



Logo ar eirin gwlanog



Logo ar lechen




Logo ar gwyrddlas



Logo ar mint



Logo ar oren



Maint

Er mwyn cynhyrchu cyfathrebiadau cydlynol, mae maint y marc brand yn bwysig. Dylai'r marc brand ymddangos yn y meintiau a nodwyd. Dylid cymryd gofal bob amser i sicrhau bod y marc brand yn ddarllenadwy ac o faint priodol.

Maint ar gyfer defnydd A3

Wrth ddefnyddio'r marc brand ar ddeunydd sy'n A3 dylai maint y marc fod yn 115mm o led.



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

115mm

Maint ar gyfer defnydd A4

Wrth ddefnyddio'r marc brand ar ddeunydd sy'n A4 dylai maint y marc fod yn 80mm o led.



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

80mm

Maint ar gyfer defnydd A5

Wrth ddefnyddio'r marc brand ar ddeunydd sy'n A5 dylai maint y marc fod yn 60mm o led.



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

60mm

Maint lleiaf

Dylid defnyddio'r meintiau a restrir uchod bob amser. Fodd bynnag, ar gyfer eitemau hyrwyddo bach dylai'r marc brand ymddangos mor fawr â phosibl yn yr ardal argraffu benodol.

Uchafswm maint

Nid oes maint mwyaf, ond gwnewch yn siŵr bod y marc brand yn atgynhyrchu i ansawdd boddhaol wrth ei chwyddo.

Bylchiad

Parth gwahardd

Mae'r parth gwahardd yn ardal o le clir sy'n amgylchynu'r marc brand. Ni all unrhyw destun na graffeg arall ymddangos yn y parth gwahardd. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw elfennau eraill yn effeithio ar effaith weledol y marc brand.



Mae'r un rheolau parth gwahardd yn berthnasol i bob fersiwn o'r marc brand.



Logo ar ddelweddau

Gellir defnyddio'r marc brand ar ben delweddau ond dim ond pan fydd y marc cyfan yn parhau i fod yn glir, yn gryf ac yn ddarllenadwy.

Isod mae ychydig o enghreifftiau o sut y dylid ac na ddylid ei gymhwyso.



Y pentwr GCC

Ni ddylid newid y logo i greu 'pentwr'. Dylid defnyddio'r logo cywir, llawn bob amser. Pan fydd lle cyfyngedig, dylid defnyddio'r symbol tic, os yw'n addas.



Gofal
Cymdeithasol
Cymru
Social
Care
Wales



GCC
SCW

Lliw

Sut rydyn ni'n teimlo

Lliw

Defnydd o liw

Dewiswyd y lliwiau penodol hyn a'u tintiau i gynrychioli pob un o'n pedwar maes gwaith allweddol.

Dylai'r lliwiau ymddangos fel acen sylfaenol mewn cyhoeddiadau a deunyddiau a gynhrychir ar gyfer pob un o'r pedwar maes allweddol hyn.

Gwyrddlas

ar
gyfer

Ymchwil

**Eirin
gwlanog**

ar
gyfer

Rheoleiddio'r gweithlu

Mint

ar
gyfer

Dysgu a datblygu'r
gweithlu

Oren

ar
gyfer

Gwella gwasanaeth

Lliw

Lliwiau cynradd

Mae'r palet cynradd yn cynnwys pedwar lliw: llechen, mint, eirin gwlanog a gwyn. Gellir defnyddio tintiau o'r lliwiau hyn hefyd.

Dylai'r lliwiau blaenllaw fod yn llechen a mint yn bennaf. Dylid defnyddio eirin gwlanog fel lliw acen ac ar gyfer galwadau i weithredu.




Llechen

C: 80 M: 70 Y: 45 K: 45

R: 55 G: 57 B: 76

#37394c




Mint

C: 76 M: 0 Y: 60 K: 0

R: 22 G: 173 B: 133

#16A881



Eirin gwlanog

C: 0 M: 75 Y: 60 K: 0

R: 235 G: 94 B: 87

#EB5E57



Gwyn

C: 0 M: 0 Y: 0 K: 0

R: 255 G: 255 B: 255

#FFFFFF

Palet eilaidd

Dewiswyd lliwiau eilaidd i ategu a chyfoethogi'r palet lliw cynradd.

Gellir defnyddio tintiau o'r lliwiau palet eilaidd hefyd.




Gwyrddlas

C: 80 M: 30 Y: 40 K: 15

R: 37 G: 125 B: 134

#247c86



Oren

C: 0 M: 40 Y: 65 K: 0

R: 247 G: 171 B: 100

#f6ab64



Leim

C: 55 M: 0 Y: 100 K: 0

R: 134 G: 188 B: 37

#86bc24



Llwyd

C: 0 M: 0 Y: 0 K: 30

R: 198 G: 198 B: 198

#c6c6c5

Lliwiau cynradd (digidol)

Sylwch: wrth ddefnyddio Eirin gwlanog neu Mint ar ddibenion digidol, defnyddiwch y gwerthoedd lliw hyn.




Mint

C: 83 M: 24 Y: 65 K: 9

R: 17 G: 132 B: 106

#11846A



Eirin gwlanog

C: 15 M: 80 Y: 71 K: 4

R: 203 G: 75 B: 68

#CB4B44

Ffurfdeip

Beth rydyn ni'n ei olygu

Ffurfdeip corfforaethol

Defnyddio'r ffont

Gibson yw'r ffurfdeip corfforaethol ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae Gibson yn ymddangos mewn pum pwysau gwahanol ac mae'n ffont sans serif safonol. Peidiwch ag ystumio na newid y ffont hwn mewn unrhyw ffordd. Dim ond yn ei wir ffurf y gellir ei ddefnyddio.

Cyfathrebu digidol

Mae Gibson ar gael ac wedi'i drwyddedu ar gyfer defnydd digidol; fodd bynnag, os nad oes gennych fynediad at ffurfdeip Gibson yna argymhellir defnyddio Arial. Fodd bynnag, rhaid peidio ag ailosod y marc brand mewn Arial.

Pan anfonir dogfennau digidol y gellir eu golygu i dderbynwyr allanol, defnyddiwch Arial. Mae e-byst, dogfennau Word a dogfennau Powerpoint yn ychydig o gymwysiaid lle byddai hyn yn ddefnydd priodol o Arial.

Y ffurfdeip Gibson

Penawdau a theitlau Regular / **SemiBold**

Dylid defnyddio Gibson Regular a Semibold ar gyfer penawdau a theitlau.

Copi Corff

Light / **Regular**

Dylid defnyddio Gibson Light ar gyfer copi corff a dylai arddangos am 12pt.

Os oes amser lle dylai copi o'r corff ymddangos yn 10pt neu'n is yna dylid defnyddio Gibson Rheolaidd i sicrhau eglurder a darllenadwyedd.

Gellir hefyd defnyddio Gibson Light a Regular ar nwyddau a deunyddiau eraill, lle bo hynny'n addas.

Y wefan

Dylid defnyddio Gibson Book ar y wefan, gan ei fod yn gydnaws ag ystod ehangach o ddyfeisiau.

Light / Regular / **SemiBold** / **Bold**

A B C D E F G H I J K L M N O P Q R S T U V W X Y Z
a b c d e f g h i j k l m n o p q r s t u v w x y z

Â Ê Î Ò Ô Æ Û Ŵ Ŷ
â ê î ô ô æ û ŵ ŷ

0 1 2 3 4 5 6 7 8 9

! @ £ \$ % ^ & * () _ - + = [] ; : ' \ / ? # . ,

Lliw testun

Wrth ddefnyddio testun ar gefndir lliw, dylai fod cyferbyniad uchel bob amser rhwng y ddau liw a ddefnyddir.

Gellir defnyddio pob lliw yn erbyn cefndir gwyn, ar wahân i lwyd.

Wrth ddefnyddio lliwiau llachar, fel yr eirin gwlanog, oren, mint a leim, dylent fod o leiaf 14pt ac yn Gibson Regular neu'n drymach.

Yn gallu defnyddio
gwyn...
Yn gallu defnyddio
mint...
Yn gallu defnyddio eirin
gwlanog...
Yn gallu defnyddio
llwyd...

Yn gallu defnyddio
gwyn...
Yn gallu defnyddio
llechen...

Yn gallu defnyddio
gwyn...
Yn gallu defnyddio
llechen...

Yn gallu defnyddio
gwyn...
Yn gallu defnyddio
llechen...

Yn gallu defnyddio
gwyn...
Yn gallu defnyddio
llechen...

Yn gallu defnyddio
gwyn...

Delweddau

Yn uwch na geiriau

Delweddau

Dylai pob delwedd adlewyrchu ein gwerthoedd brand.

Lle bynnag y bo modd, dylai delweddau fod mewn lliw llawn, cynnwys pobl gyffredin ac edrych yn naturiol. Dylai'r berthynas rhwng pobl a welir yn ein delweddau fod yn broffesiynol ac yn briodol, er nad oes rhaid iddynt fod yn ffurfiol.

Mae'n bwysig bod ein delweddau'n amrywiol ac yn cynrychioli'r sector yn gywir.

Mae angen addasu delweddau. Pan ychwanegir dyfeisiau brandio atynt, rhaid iddynt fod yn ddarllenadwy o hyd. Os cânt eu hargraffu ar raddfa fawr, rhaid iddynt fod o ansawdd uchel ac yn glir.


Dyma rai enghreifftiau.



Ffrâm ddelwedd

Defnyddir siâp y marc brand mewn sawl ffordd i ddal delweddau, gan ganiatáu i ddyluniadau edrych yn wahanol ond yn rhan o'r un teulu.

Dyma rai enghreifftiau.




Cynllun

Edrychiad a theimlad

Safle logo

Mae'r safle diofyn ar gyfer y logo ar y chwith uchaf.

Os nad yw hyn yn bosibl, dylai fod ar y chwith isaf.





Ymylon y dudalen

Mae’r ardal ymyl yno i greu gofod cyson o amgylch y ddogfen. Ni ddylai unrhyw destun na logo ymddangos y tu mewn i’r ymyl.

Dim ond delwedddau ac elfennau graffig eraill all fynd i mewn i’r ardal ymyl.

Ymylon A4



Ymylon A5

